

Partneriaeth Talysarn & Nantlle




Bwletin Ward Talysarn

Ebrill - Mehefin 2006

BLODEUWEDD - Straeon o'r Ardd

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn reit brysur i Grŵp Blodeuwedd wrth i'r tywydd sych, poeth ein cadw'n brysur yn dyfrio'r gwelyau blodau o gwmpas yr ardal. O ganlyniad i hynny mae straeon wedi bod yn mynd o gwmpas am berson yn cerdded strydoedd Talysarn yn fuan iawn yn y bore yn cario dau gan dŵr pinc eu lliw! (coch oeddynt ond wedi colli eu lliw yn yr haul – onest!) Un peth da am y dyfrio ben bore yw bydd fy mreichiau dwi'n siwr, wedi 'mestyn digon i mi fedru cau fy 'sgidiau heb ofod plygu i lawr!

Mae yna fantais i'r tywydd poeth, sych yma i fod i arddwyr; fe ddywedodd un garddwr wrthyf y buasai'r tywydd yma yn cael gwared ar falwod a gwllithoedd - dim yn fy ngardd i!



Tom – Prif Ddyfriwr, Grŵp Blodeuwedd.

Un niwsans arall sydd i'w weld yn mwynhau'r tywydd yma yw'r gwybaid - dwi 'rioed wedi cael fy mrathu cyn gymaint ac mae'r rhai o gwmpas Dyffryn Nantlle â safnau anferth!

Tydi un ffrind da i mi, sydd am aros yn ddi-enw, ddim yn hoff o arddio o gwbl, a dywedodd wrth ei wraig un diwrnod os y buasai ef yn torri'r gwair yn y tywydd poeth 'ma, yna mi fuasai'r gwair yn marw i gyd. O ganlyniad iddo beidio â thorri'r gwair am wythnosau lawer, roedd y gwair erbyn hyn wedi tyfu hyd at droedfedd o dal a'i wraig wedi darganfod mai stori hollol anwir ydoedd er mwyn iddo beidio gorfod torri'r gwair yn y lle cyntaf.

Beth bynnag, gobeithio y gwnaiff y tywydd barhau i fod yn braf erbyn ein Te P'nawn nesaf yn y Ganolfan, Talysarn dydd Mercher 12 Gorffennaf rhwng 2 - 4yh, a dwi'n edrych ymlaen yn arw oherwydd dyma'r tro cyntaf i ni ei gynnwyl yn y Ganolfan newydd, ond mi fyddwn yn ôl yn Llys Llywelyn, Nantlle, fis Awst.

Os oes unrhyw un ohonoch â diddordeb mewn ymuno â'r criw hapus, gwirion o arddwyr yna cysylltwch â mi ar 01286 882354 (does dim rhaid cael profiad blaenorol o arddio, dim ond hiwmor a'r awydd i wella'n cymuned).

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethalysarnanant@btopenworld.com



communities first cymunedau yn gyntaf



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

Canolfan Cymdeithasol Talysarn



Fe gynhaliwyd diwrnod agored yng nghanolfan gymdeithasol Talysarn ddydd Sadwrn 15 Ebrill 2006, er mwyn i bobl yr ardal cael gweld yr adeilad newydd sbon.

Ffocws y Nant

Grŵp yw Ffocws-y-Nant sydd yn ymroddedig mewn dysgu ffotograffiaeth traddodiadol a digidol. Ein bwriad yw darparu canolfan rhagoriaeth llawn i ddefnydd pawb fydd â dymuniad o'i ddefnyddio. Roedd ein arddangosfa cyntaf yn llwyddiant mawr a'r gobraith yw cynnal mwy ohonynt yn y dyfodol. Gobeithir cynnal cyfarfodydd misol yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn ac os oes unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r clwb yna cysylltwch â John Fearon ar 01286 882956 neu W M Williams-Jones ar 07792665025.

Prifysgol Cymru Bangor

Adran Dysgu Gydol Oes CYRSIAU CYMRAEG I OEDOLION

Ydach chi'n adnabod rhywun sydd eisiad dysgu Cymraeg?

Bydd cwrs WLPAN sef cwrs dysgu Cymraeg i Oedolion yn dechrau yn Nantlle ym mis Medi. Cynhelir y cwrs yn Nhrigonos, Plas Baladeulyn a bydd yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos ar ddydd Mawrth a dydd Iau o 10.00 tan hanner dydd. Cwrs i ddechreuwr pur yw hwn. Byddwn yn cyfarfod ddwy waith yr wythnos er mwyn i bobl symud ymlaen gyda'r iaith ar y cychwyn. Mae'r pwyslais ar ddysgu siarad. £25 yw'r gost i unrhyw un sydd ddim yn gweithio (a £94 i'r rhai sy'n gweithio) am 17 wythnos. Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Eleri Jones ar 01766 523513 neu ebostiwch e.s.jones@bangor.ac.uk neu ffoniwch 01248 382752.

Cymunedau'n Gyntaf

Mae Dafydd Williams, Cydlynnydd Cymunedau'n Gyntaf Partneriaeth Talysarn a Nantlle, yng Nghanolfan Llys Llywelyn bob dydd Mercher o 10yb hyd at 4yh. Mae croeso i unrhyw un alw i mewn i'w weld os oes gennych unrhyw gwestiynau iddo ynglyn â Chymunedau'n Gyntaf, neu unrhyw syniadau gallwn ddatblygu yn yr ardal.

Partneriaeth Talysarn a Nantlle

Mae'r Bartneriaeth yn awyddus sefydlu Is-Grŵp Addysg a hyfforddiant, Is-Grŵp Trosedd a Chadw Cymunedau'n Ddiogel a hefyd Is-Grŵp Amgylchedd. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno ag unrhyw un o'r grwpiau yma yna cysylltwch â Dafydd Williams yn swyddfa'r Bartneriaeth ar 01286 881103, neu galwch i mewn.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

'Planning for Real'

Mae rhai aelodau o'r gymuned wedi gwneud hyfforddiant ar y 'Planning For Real' ac fe fydd y gwaith cychwynnol tuag at gynnal ymgyngoriad cyhoeddus yn dechrau fis Medi 2006 ac yn gyfle i bawb gymeryd rhan. Mae grŵp llywio wedi ei sefydlu gyda 3 is-grŵp yn gweithio ar y rhaglen yn gwneud y gwaith paratoadol.

Pobl Ifanc

Pobl ifanc wedi treulio wythnos gyfan yn cael hyfforddiant gan Syrcas Circus yn ystod cyfnod gwyliau'r Pasg ac wedi cymeryd rhan mewn sioe y Syrcas ar ddiwrnod diwethaf yr wythnos. Pawb wedi mwynhau'n arw.

Grŵp Amgylchedd Talysarn a Nantlle



Mae Grŵp Amgylchedd Talysarn a Nantlle yn cyfarfod bob mis yn Trigonos. Ar hyn o bryd rydym yn brysur hefo prosiectau fel creu gardd bywyd gwyllt yn Ysgol Talysarn, cysylltu hefo'r Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd i sicrhau bod ein llwybrau cerdded lleol wedi eu cynnal yn foddhaol, a chadw llygad ar ddatblygiadau Chwarel Dorothea.

Rydym yn trefnu dau ddigwyddiad eleni. Diwrnod ail-gylchu yw'r digwyddiad cyntaf a fydd yn digwydd yn fuan yng Nghanolfan Talysarn. Bydd gemau, cystadlaethau, arddangosfeydd celf a chreffft a chyfle i ddysgu sut i ail-gylchu pethau nad ydym eu hangen yn fwy effeithiol.

Mae gwahoddiad i chi ddod â hen fatris, 'cartridges' argraffu, poteli plastig a thuniau paent wedi eu hagog. Hefyd, bydd Siop Ffeirio ar gyfer offer babi, teganau a dillad. Os oes gennych chi syniadau ar gyfer ail-gylchu, hoffwn glywed gennych. Bydd ein cyfarfod nesaf nos Fawrth 4 Gorffennaf am 7 o'r gloch yn Trigonos. Croeso i bawb ddod atom ni. Bydd yr ail ddigwyddiad, sef Diwrnod Adnewyddu Ynni, yn yr Hydref. Mwy am hyn yn y daflen newyddion nesaf.

Os am fwy o fanylion cysylltwch ag Ailsa Newcombe ar 01286 881946.

Twrnament Peldroed

Cynhaliwyd twrnament peldroed ar gae y Celts ar y tir wrth Ganolfan Cymdeithasol Talysarn ar y 1af a'r 2ail o Fai. Roedd timau o bob man yn cynrychioli bob oedran, gan gynnwys y genod, wedi teithio i Dalysarn dros y penwythnos yma. Er bod y safleoedd parcio a'r ffyrdd i gyd yn 'choc-a-bloc', doedd neb yn cwyno a phawb yn falch iawn o lwyddiant y twrnament.

Partneriaeth Talysarn & Nantlle

Cylch Meithrin Talysarn

Bydd Cylch Meithrin Talysarn yn ail-agor fis Medi 2006. Mae'r cylch wedi bod ar gau ers mis Mawrth 2005 tra bod y gwaith adeiladu yn mynd ymlaen yn y Ganolfan newydd. Bydd y Cylch yn cael ei gynnal bob bore yn Ystafell Dorothea yng Nghanolfan Gymdeithasol Talysarn. Arweinydd y Cylch fydd Maira Daly sydd o Dalysarn ac yn gweithio hefo hi bydd Cathy Williams o Benygroes.

Os oes gennych blentyn fydd yn 2^{1/2} yn fuan, cysylltwch â Rhian Gregory Ysgrifenyddes y Cylch am fwy o wybodaeth a chael ffurflen gofrestru. Rhif ffôn 01286 881059

Cronfa'r Ymddiriedolaeth

Er gwybodaeth i grwpiau lleol, mae'r "Trust Fund" yn agored i chi roi ceisiadau am gefnogaeth ariannol eto eleni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Wena neu Dafydd.

Dyddiadau Cyfarfod y Bartneriaeth 2006

Medi 4	-	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
Hydref 2	-	Llys Llywelyn, Nantlle
Tachwedd 6	-	Canolfan Cymdeithasol Talysarn
Rhagfyr 4	-	Llys Llywelyn, Nantlle

Blwch Syniadau

Os oes gennych chi syniadau yr hoffech i'r Bartneriaeth eu hystyried, rhowch nhw yn y blwch yma a'i ddanfôn at Dafydd Williams yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn.

Enw:

Cyfeiriad:

Syniadau:

.....

.....

.....

.....

**AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â
Canolfan Cymdeithasol Talysarn**

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: dafydd.partneriaethtalysarnanant@btopenworld.com